



# Yr Holocost a Chymru

## Meddygon, Deintyddion a Nyrsys Ffoaduriaid Iddewig yng Nghymru

Crëwyd gan y Ganolfan Astudio Symudedd Pobl (CASP) ym Mhrfysgol Aberystwyth






Crëwyd mewn partneriaeth rhwng CASP a Chymdeithas Hanes Iddewig De Cymru (CHIDC) a'i ariannu gan Gymdeithas y Ffoaduriaid Iddewig (AJR)

Yr Holocost a Chymru

# Meddygon, Deintyddion a Nyrsys Ffoaduriaid Iddewig yng Nghymru

Mae'r adnodd hwn yn edrych ar feddygon, deintyddion a nyrsys Iddewig a wnaeth ffoi i Brydain yn y 1930au. Roedd Iddewon yn y proffesiwn meddygol ymhlith y cyntaf i gael eu herlid gan y Natsïaid, ac fe gyrhaeddodd nifer o'r ffoaduriaid hyn Gymru yn y pen draw.

Mae'n cynnwys:

- Gwybodaeth gefndir am ffoaduriaid Iddewig yn y proffesiwn meddygol a ble i ddarganfod mwy
- Ffotograff o Paul Bosse yn cyfarfod Adolf Hitler
- Bywgraffiadau byr o Josephine Bruegel, Alfred Feiner and Jacques Kurer
- Dolen i glip sain o recordiad hanes llafar o Josephine Bruegel
- Ffotograff o Jacques a Theodora Kurer, 1950s
- Trawsgrifiad o'r clip sain

Mae'r adnodd yn rhagdybio dealltwriaeth sylfaenol o'r Holocost. Efallai y byddwch am gyflwyno taflen waith Ymddiriedolaeth Addysgol yr Holocost (HET), 'Diffinio'r Holocost', cyn archwilio'r adnoddau hyn. Gweler hefyd Egwyddorion Cyffredinol HET ynglŷn ag Addysgu am yr Holocost.

CMOP/CASP JHASW CHIDC AJR

# Gwybodaeth gefndir am ffoaduriaid Iddewig yn y proffesiwn meddygol

Daeth y Natsïaid i rym ym mis Ionawr 1933 ac yn fuan dechreuon osod cyfyngiadau ar Iddewon yn y proffesiwn meddygol; erbyn mis Ebrill, roedd meddygon Iddewig wedi'u heithrio o'r rhaglen yswiriant iechyd cyhoeddus ac erbyn yr haf cawsant gyfarwyddyd i beidio â chydweithio â'u cydweithwyr nad oeddent yn Iddewon.

O fewn blwyddyn, cafodd dros 2,600 o feddygon Iddewig eu diswyddo ac ar ôl Deddfau Nuremberg 1935, gwaharddwyd Iddewon rhag cymhwyso fel meddygon neu ddeintyddion newydd. Ym mis Gorffennaf 1938, gwaharddwyd nhw rhag cael cleifion 'Aryaidd' ac ym mis Medi 1938 cawsant eu diarddel o'r proffesiwn yn llwyr; a hwythau'n methu gweithio, penderfynodd llawer ymfudo.

Amcangyfrifir bod 1,200 o feddygon, Iddewon yn bennaf, wedi cyrraedd Prydain o'r Almaen ac Awstria rhwng 1933 a 1939. Fodd bynnag, oherwydd amharodrwydd y Gymdeithas Feddygol Brydeinig, y Cyngor Nyrsio Cyffredinol a Chymdeithas Ddeintyddol Prydain i gydnabod eu cymwysterau, bu'n rhaid iddynt astudio a phasio gradd arholiad Prydeinig pellach.

Sefydlodd Ysgol Feddygaeth Genedlaethol Cymru 'gynllun hyfforddi arbennig ar gyfer ffoaduriaid' a chofrestrwyd 12 o fyfyrwyr Almaenig yma rhwng 1933 a 1934; ym 1938-39, ymunodd saith o Awstria a 15 o Tsiecoslofacia â nhw.

Roedd deintyddion o siroedd eraill yn cael eu rheoli'n llymach fyth. Yn dilyn adolygiad ym 1938, llaciwyd y rheolau oedd yn eu cyfyngu'n ddifrifol rhag ymarfer yn y DU a chaniatawyd i 40 o ddeintyddion a oedd yn ffoaduriaid o Awstria i fynd i mewn.

I gael rhagor o wybodaeth am ffoaduriaid Iddewig yn y proffesiwn meddygol, gweler:

- https://wp-research.aber.ac.uk/nsrefugeeswales/cy/hanes/bywyd-ffoaduriaid-yng-nghymru/gwasanaethau-meddygol/
- Michael H. Kater, 'Unresolved Questions of German Medicine and Medical History in the Past and Present', *Central European History*, 25 (1992), tt 407-23
- John Zamet, 'German and Austrian Refugee Dentists: The Response of the British Authorities,1933-1945', Thesis PhD (Rhydychen: Prifysgol Rhydychen Brookes, 2007), ar gael yn https://radar.brookes.ac.uk/radar/items/e0d3e236-585a-4c8e-a61f-ee0830585b0a/1/

## Ffynhonnell hanesyddol 1: Paul Bosse (yn sefyll, chwith), tad y ffoadur Kate Bosse-Griffiths, yn cyfarfod Adolf Hitler yn Wittenberg, 1935



Tynnwyd y llun hwn ar ôl ffrwydrad mewn ffatri arfau gerllaw. Roedd Paul yn llawfeddyg uchel ei barch a oedd wedi cael ei anafu wrth wasanaethu ym Myddin yr Almaen yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf. Ef hefyd oedd meddyg tîm rhedwyr gwib yr Almaen yn ystod Gemau Olympaidd 1936. Cafodd gwraig Paul, Käthe, ei dosbarthu fel Iddewes yn ôl deddfau hiliol y Natsïaid. Er gwaethaf ei holl waith, roedd y ffaith fod Paul yn gwrthod ei hysgaru yn golygu ei fod wedi cael ei ddiswyddo o'i swydd fel prif lawfeddyg yn yr ysbyty lleol.

Delwedd: Casgliad y Werin Cymru
Dolen: https://www.casgliadywerin.cymru/items/1893251

© Heini Gruffudd

Am fwy o wybodaeth am y teulu Bosse, gweler yr adnodd ar Yr Iaith Gymraeg

## Ffynhonnell hanesyddol 2: Bywgraffiad byr o Josephine Bruegel

Ganed Josephine Bruegel yn 1914 yn Stráž yn yr Ymerodraeth Awstro-Hwngari (y Weriniaeth Tsiec heddiw). Myfyriwr meddygol oedd hi ym Mhrâg pan heidiodd yr Almaenwyr i Tsiecoslofacia. Ffodd i Brydain, lle bu'n gweithio fel nyrs yn Llundain cyn cael ei symud i Gaerdydd ym 1944. Yma, gwirfoddolodd i'r Gwasanaeth Meddygol Brys ac fe'i hanfonwyd i Ysbyty Llwynypia yng Nghwm Rhondda. Ar ôl y rhyfel, symudodd hi a'i gŵr yn ôl i Tsiecoslofacia, ond dychwelon i Brydain ar ôl i'r Comiwnyddion oresgyn ei mamwlad ym 1948. Parhaodd i ymarfer meddygaeth ac roedd yn un o sylfaenwyr y Gymdeithas Sgitsoffrenia Genedlaethol. Bu farw yn 2005.

## Ffynhonnell hanesyddol 3: Clip Sain: Josephine Bruegel ar gymhwyso fel MD Tsiecoslofacia

## Ffynhonnell hanesyddol 4: Bywgraffiad byr o Albert Feiner

Ganwyd Alfred Feiner yn Walddeg, Awstria, yn 1897. Roedd yn dod o gefndir Iddewig, a bu'n gweithio fel meddyg yn Awstria cyn ffoi gyda'i wraig, Herta, a'i fab ifanc ar ôl yr Anschluss yn 1938.

Cofrestrodd yn Ysgol Feddygaeth Genedlaethol Cymru yng Nghaerdydd i ailhyfforddi tra bu Herta yn gweithio fel cogydd ac yn cadw tŷ er mwyn eu cynnal. Ar ôl tair blynedd, cwblhaodd Alfred ei astudiaethau a symudodd y teulu i Bontypridd. Bu'n gweithio fel Meddyg Teulu yno rhwng 1941 ac 1977. Yn ôl ysgrif goffa Herta, bu'n rhaid iddyn nhw oresgyn "llawer iawn o amheuaeth a gelyniaeth" ym Mhontypridd, ond yn y pen draw "ennill parch ac edmygedd y boblogaeth leol". Bu farw Herta yn 1976, a bu farw Alfred yn 1993.

'Obituary: Herta Feiner', yn *AJR Information*, Mawrth 1977, t. 12 (https://ajr.org.uk/wp-content/uploads/2018/02/1977_march.pdf)

## Ffynhonnell hanesyddol 5: Bywgraffiad byr o Jacques Kurer

Roedd Jacques Kurer yn un o 40 o ddeintyddion oedd wedi ffoi o Awstria ac a gafodd ganiatâd i ddod i mewn i'r Deyrnas Unedig yn 1938. Llwyddodd i symud wyth aelod arall o'i deulu, gan gynnwys ei wraig Theodora, a dau fab, Peter a Hans, diolch i nawdd dau deulu o Grynwyr. Er bod Jacques wedi cael gradd feddygol o Brifysgol Fienna yn 1925, fe'i gorfodwyd i gwblhau gradd ddeintyddol arall ym Mhrifysgol Manceinion yn 1939.

Cafodd ganiatâd i agor practis, ond yn 1941 bomiwyd y ddau eiddo lle'r oedd y teulu'n aros, ac fe'u symudwyd i Landudno. Yma, agorodd Jacques bractis arall, a oedd yn boblogaidd ymhlith y bobl leol yn sgil ei safon uchel. Cafodd Jacques a Theodora blentyn arall, merch, a dathlodd Hans a Peter eu bar mitzvah. Symudon nhw yn ôl i Fanceinion yn 1944, a daeth Peter a Hans hefyd yn ddeintyddion. Bu farw Jacques yn 1974.



## Ffynhonnell hanesyddol 6: Ffotograff o Jacques a Theodora Kurer, 1950s



Delwedd: Casgliad y Werin Cymru
Dolen: https://www.casgliadywerin.cymru/items/2156471
© Peter Kurer



# Trawsgrifiad

Clip Sain: Josephine Bruegel ar gymhwyso fel MD Tsiecoslofacia

Ac yna…mae'n rhaid mai mis Chwefror neu fis Mawrth oedd hi [1941], sefydlodd llywodraeth alltud Tsiec, a ddaeth o Ffrainc, ei hun yma, a gyda'r fyddin Tsiec daeth tua hanner cant o filwyr oedd yn yr un sefyllfa â mi – heb orffen eu hastudiaethau meddygol ond wedi gwneud y blynyddoedd clinigol, felly trefnwyd y gallent nhw a minnau orffen eu hastudiaethau yma. Felly, cawsom i gyd ein rhoi mewn prifysgolion amrywiol.

[…]

Ac yna daeth y sefyllfa ryfedd … pa fath o radd i'w rhoi i ni. Roedd yn rhaid i'r radd hon fod yn werthfawr yn Tsiecoslofacia hefyd, oherwydd roedd pawb eisiau mynd yn ôl, ac nid oeddent eisiau wneud unrhyw un o'r arholiadau eto. Felly, yr hyn a ddigwyddodd oedd, bod Prifysgol Rhydychen wedi mabwysiadu Prifysgol Prâg, a gafodd ei chau, felly cefais y diploma hwn yn Rhydychen mewn mawr ogoniant. MD Tsiecoslofacia oedd ei enw.